Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Trwy e-bost – DSME@gov.wales

4 Mehefin 2020

Annwyl Weinidog

Cyngor ar sut y bydd Cymwysterau Cymru yn pennu ystod o gymwysterau'r dyfodol ar gyfer pobl ifanc 16 oed

Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch ein dull o ail-lunio'r ystod o gymwysterau i'r dyfodol ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru i gefnogi'r cwricwlwm newydd ac ymateb i anghenion y dyfodol.

Yn y llythyr hwn, rydym yn cadarnhau'r prif agweddau ar ein dull gweithredu ac yn trafod rhai o'r prif heriau a wynebwn. Ychwilir yn fanylach i'r heriau, y cyfleoedd, y dibyniaethau a'r tybiaethau yn yr atodiad sy'n cyd-fynd â'r llythyr hwn. Rydym hefyd yn nodi lle mae ein gwaith yn cyffwrdd ar agweddau allweddol ar ddiwygiadau ehangach Llywodraeth Cymru ac yn trafod lle bydd angen eglurder neu benderfyniadau pellach i gefnogi ein gwaith.

Ein nod wrth baratoi'r cyngor hwn yw hysbysu'r gwaith o weithredu Cenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ac i sicrhau ein bod yn symud ymlaen ar sail glir a chytunedig.

Rydym yn cyhoeddi'r cyngor hwn i helpu i egluro ar ba sail yr ydym yn datblygu'r maes pwysig hwn o waith a sut y byddwn yn ymgymryd â'r penderfyniadau hanfodol sydd o'n blaenau.

Wrth baratoi'r cyngor hwn, rydym yn ymwybodol o'r pwysau ychwanegol y mae'r sefyllfa o ran Covid-19 wedi'i osod ar y sector addysg yng Nghymru, a hefyd ar swyddogion Llywodraeth Cymru.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cefndir

Ein gweledigaeth yw bod pobl ifanc 16 oed yn sefyll cymwysterau ag iddynt barch byd-eang sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

Dylai ysgolion a darparwyr eraill sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus allu dewis o blith ystod o gymwysterau sy'n:

- ennyn hyder y cyhoedd, gyda derbynioldeb yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang;
- sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog i ganolfannau a dysgwyr;
- gwneud y gorau o'r dechnoleg ddigidol sydd ar gael i ganolfannau;
- gallu cael eu darparu mewn ffordd reoledig a chynaliadwy.

Ym mis Tachwedd 2019, lansiwyd ymgynghoriad gennym ar gynigion ar sut y dylem ymgymryd â'r gwaith hwn. Rydym wedi cyhoeddi crynodeb o'n penderfyniadau ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahân[1], ynghyd ag adroddiad ar yr ymatebion a dderbyniwyd[2].

Ein penderfyniadau

1. **Byddwn yn defnyddio'r egwyddorion arweiniol canlynol wrth bennu'r cymwysterau a fydd yn gymwys i gael cyllid yn 16 oed.**

   Dylai cymwysterau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16 oed:

   i. gysylltu â nodau a dibenion y Cwricwlwm i Gymru, a'u cefnogi;

   ii. bod ar gael yn Gymraeg a Saesneg;

   iii. cyfrannu at gynnig cydlynol a chynhwysol.

2. **Byddwn yn cadw'r enw TGAU ac yn diweddaru cynnwys ac asesiad cymwysterau TGAU unigol i ddiwallu anghenion y dyfodol.**

   Byddwn yn ystyried sut y dylid cynllunio cymwysterau TGAU yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar y cynnwys a asesir mewn cymwysterau TGAU, eu trefniadau asesu, a'r ystod o feysydd pwnc y maent ar gael ynddynt.

[1] https://qualificationswales.org/media/6016/crynodeb-or-canfyddiadau.pdf

[2] https://qualificationswales.org/media/6017/dadansoddiad-o-ymatebion-ir-ymgynghoriad.pdf

Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried sut y gall cymwysterau TGAU gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm yn fwyaf effeithiol, wrth ennyn hyder y cyhoedd yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Fel y dywedasom yn ein hymgynghoriad, bydd angen cymwysterau eraill ar draws ystod o lefelau ochr yn ochr â chymwysterau TGAU er mwyn sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu. Pwysleisiodd ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yr angen am ddewis o gymwysterau sy'n cynnwys gwahanol ddulliau asesu ac sy'n cefnogi dilyniant i lwybrau galwedigaethol a thechnegol, yn ogystal â llwybrau academaidd.

3. **Byddwn yn ailalinio ein gwaith ar ddiwygio'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen gyfredol gyda'n hadolygiad ehangach o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed.**

   Roedd safbwyntiau rhanedig ar ein cynnig i fwrw ymlaen â gwaith ar ddatblygu cymhwyster newydd sy'n asesu sgiliau ehangach pobl ifanc 16 oed.

   Rydym am sicrhau y bydd unrhyw newidiadau i Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen yn y dyfodol (y fersiwn a gymerir yn 16 oed) yn gydlynol â chymwysterau eraill a gymerir yn 16 oed. Felly, ni fyddwn yn ymgynghori ar ddiwygiadau i'r cymhwyster hwn hyd nes y byddwn wedi penderfynu sut bydd yr ystod lawn o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed yn edrych.

   Byddwn yn parhau fel y cynlluniwyd gyda'n diwygiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, a gymerir yn nodweddiadol ochr yn ochr â chymwysterau Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 eraill.

Camau nesaf

Ar ôl penderfynu ar agweddau allweddol ein dull gweithredu, ein tasg nesaf yw ystyried yr ystod lawn o gymwysterau a ddylai fod ar gael i bobl ifanc 16 oed.

Ar ddiwedd y flwyddyn hon, rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion ar gyfer:

- y cymwysterau a ddylai fod yn rhan o'r cynnig yn y dyfodol i bobl ifanc 16 oed. Bydd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer yr ystod gyfan, gan gynnwys TGAU a chymwysterau eraill. Byddwn hefyd yn gofyn pryd y dylid gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol ac ym mha drefn blaenoriaeth.
- sut y dylai cymwysterau TGAU edrych yn y dyfodol. Y meysydd pwnc y gellir eu cynnig ynddynt, yn ogystal â'r math o gynnwys ac asesiadau y

dylent eu cynnwys. Byddwn hefyd yn gofyn pryd, ac ym mha drefn, i wneud unrhyw newidiadau.
- Y cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi'r continwwm sengl ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg. Yma eto, bydd ein cynigion yn ymdrin â pha newidiadau y gallai fod eu hangen, yn ogystal â sut a phryd y dylid gwneud y newidiadau hynny.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a mireinio set o gynigion clir ar gyfer ymgynghori.

Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu y bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion a restrir uchod yn cau yn gynnar yn 2021, ac y byddwn yn cadarnhau ein penderfyniadau yn haf 2021, cyn lansio rownd arall o ymgynghoriadau yn hydref 2021 i gytuno ar ddyluniad manwl unrhyw gymwysterau newydd neu rai wedi'u diweddaru. Fodd bynnag, o ystyried yr argyfwng iechyd cyhoeddus cyfredol a'i oblygiadau hirdymor posibl, byddwn yn adolygu ein cynlluniau ymgynghori i sicrhau mai dim ond pan fydd yn briodol gwneud hynny y byddwn yn ymgynghori.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, byddwn yn edrych ar y ffordd orau o ddefnyddio ein pwerau statudol i sicrhau'r ystod arfaethedig o gymwysterau'r dyfodol. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallai fod angen i ofynion a phrosesau rheoleiddio newid i adlewyrchu'r egwyddorion arweiniol. Wrth i ni wneud hynny, byddwn yn ystyried effaith bosibl unrhyw newidiadau yn ofalus ac yn eu profi gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff dyfarnu, darparwyr dysgu a dysgwyr.

Heriau, cyfleoedd, dibyniaethau a thybiaethau

Ni fydd yn hawdd penderfynu pa gymwysterau fydd eu hangen yn y dyfodol, a sut y dylid eu cynllunio. Mae sawl ystyriaeth bwysig i ni eu hystyried wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu a'i roi ar waith.

Yn yr atodiad amgaeedig, rydym yn trafod yn fanylach y prif heriau, cyfleoedd, dibyniaethau a thybiaethau sy'n gysylltiedig â'n gwaith wrth symud ymlaen. Mae'r rhain yn adeiladu ar lawer o'r pwyntiau a godwyd mewn ymateb i'n hymgynghoriad ac ar y themâu a drafodwyd yn ein crynodeb o benderfyniadau.

Ceir crynodeb isod o'r pwyntiau allweddol a drafodir yn yr atodiad.

Cynnwys y cwricwlwm a'r cymwysterau

Mae tensiwn naturiol rhwng cymwysterau sy'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno ar lefel genedlaethol a chynnwys y cwricwlwm a bennir ar lefel leol.

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol fel man cychwyn ar gyfer cynllunio eu cwricwla lleol eu hunain. Byddwn yn disgwyl i gyrff dyfarnu egluro sut mae eu cymwysterau'n cysylltu â'r cwricwlwm newydd ac yn ei gefnogi.

Lle mae gennym reolaeth uchel dros gynllunio cymwysterau, byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i gynyddu'r hyblygrwydd y mae cymwysterau yn caniatáu i ganolfannau deilwra cynnwys cymwysterau i weddu i'w cwricwlwm lleol. A bydd canolfannau'n parhau i allu dewis pa gymwysterau i'w cynnig yn unol ag anghenion eu cwricwlwm a'u dysgwyr.

Fodd bynnag, mae yna ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu hystyried a fydd yn naturiol yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd a'r dewis hwn. Beth bynnag fydd y cymwysterau gaiff eu cynnig yn y dyfodol, bydd y cynnwys a asesir mewn cymwysterau yn anochel yn dylanwadu ar y ffordd y mae canolfannau'n llunio eu cwricwlwm ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed.

Trefniadau atebolrwydd ysgolion

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer atebolrwydd ysgolion a'r gofynion a osodwn ar gyfer cynllunio a darparu cymwysterau.

Rydym yn croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu trefniadau atebolrwydd newydd i ysgolion a fydd yn lleihau i ba raddau y mae canlyniadau cymwysterau yn brif ffynhonnell ddata ar gyfer barnu perfformiad ysgol.

Mae defnyddio canlyniadau cymwysterau fel prif fesur perfformiad ysgolion yn rhoi pwysau sylweddol ar gymwysterau. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi rheolaethau anhyblyg ar gyfer sut y cânt eu hasesu, er enghraifft trwy gyfyngu ar yr ystod o ddulliau asesu y gallant eu defnyddio. Byddai lleihau'r ddibyniaeth ar ganlyniadau cymwysterau i fesur perfformiad ysgolion yn caniatáu i ni osod gofynion cynllunio mwy hyblyg ar gyfer cymwysterau a rhoi mwy o ryddid i ysgolion ddewis y cymwysterau cywir ar gyfer eu dysgwyr.

Rydym yn ymwybodol o'r prosiect ymchwil y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal i gasglu tystiolaeth i gefnogi datblygiad trefniadau yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i barhau i weithio'n agos gyda'ch swyddogion i helpu i ystyried sut y gall cymwysterau'r dyfodol gefnogi'r trefniadau newydd orau. Po fwyaf yr ydym yn ei wybod am drefniadau atebolrwydd ysgolion yn y dyfodol, y mwyaf y gallwn sicrhau bod cymwysterau wedi'u cynllunio i fod yn addas at y diben a fwriadwyd.

Rheoli graddfa, cyflymder ac effaith newidiadau

Wrth ddatblygu ein dull gweithredu a'n cynigion, byddwn yn ystyried yn ofalus effaith bosibl unrhyw newidiadau a gallu'r system i'w rheoli.

Rhaid i ni sicrhau ein bod yn caniatáu digon o amser i baratoi ar gyfer cyflwyno cymwysterau newydd neu rai sydd wedi'u diweddaru. Er mwyn ein helpu i wneud hynny, byddwn yn ceisio barn ar bryd y dylid cyflwyno newidiadau. Lle y bo'n briodol, byddwn yn ystyried mabwysiadu dull graddol, ac yn blaenoriaethu gwneud y newidiadau hynny sydd eu hangen fwyaf yn gyntaf.

Wrth i ni symud y gwaith hwn yn ei flaen, bydd angen i ni hefyd ystyried yr effaith y gallai'r ymateb cenedlaethol cyfredol i epidemig y coronafeirws ei chael ar allu'r system addysg i ymateb i raglen helaeth o newid.

Parhad, safonau a thegwch

Er y bydd y cynnwys a'r dulliau asesu a gynhwysir mewn cymwysterau TGAU yn y dyfodol yn wahanol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod cymwysterau TGAU yn parhau i gynrychioli cyrhaeddiad y gellir ei gymharu'n fras â'r cymwysterau TGAU cyfredol. Bydd hyn yn sicrhau rhywfaint o barhad a hyder yn y system gymwysterau, ac yn sicrhau tegwch i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Cymwysterau i gefnogi dysgu Cymraeg

Rydym yn gwbl gefnogol i bolisi Llywodraeth Cymru o gael gwared ar derminoleg a chysyniad Cymraeg Ail Iaith a sefydlu un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg. Mae datblygu ystod briodol o gymwysterau i gefnogi'r dull newydd hwn yn cyflwyno sawl her a chyfle.

Bydd ein cynigion ar gyfer y maes hwn o'r cwricwlwm yn:

- nodi sut mae cymwysterau Cymraeg yn cysylltu â'i gilydd ac â'r disgwyliadau cyffredin a nodir yn y cwricwlwm (hynny yw, sut maent yn cysylltu'n ôl ag un continwwm cyffredin o addysgu a dysgu iaith);
- sicrhau y gall y cymwysterau sydd ar gael ddiwallu anghenion pob dysgwr, ym mhob lleoliad a'u cefnogi cyn belled ag y bo modd i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus erbyn eu bod yn 16 oed[3];
- meddu ar gysylltiadau clir â llwybrau ôl-16 ar gyfer pob dysgwr, i'w hannog i barhau i ddefnyddio a datblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg ymhellach;
- ystyried yr adnoddau a'r gallu addysgu a fydd ar gael i ysgolion wrth iddynt gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

[3] https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg?_ga=2.78585427.639837670.1590676739-341628432.1575628933

Wrth i ni ddatblygu opsiynau ar gyfer sut y bydd angen i gymwysterau Cymraeg newid i gefnogi continwwm iaith sengl ar gyfer pob dysgwr, byddwn yn ystyried a ddylid gwneud y newidiadau hynny i gyd ar unwaith neu fesul cam. Byddai penderfynu gwneud hynny fesul cam yn gofyn i ni nodi gweledigaeth tymor hwy ar gyfer newid, wedi'i halinio â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ynghyd â set glir o gerrig milltir ar gyfer ei chyflawni.

Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol

Mae technoleg ddigidol yn chwarae rhan fwyfwy amlwg yn nysgu a bywydau pobl ifanc. Er mwyn parhau i fod yn berthnasol, yn ddeniadol ac yn ddilys, mae'n bwysig bod cymwysterau'n addasu i adlewyrchu'r duedd hon.

Fel gydag unrhyw newid, bydd gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth asesu yn dod â heriau, ond hefyd cyfleoedd. O'i defnyddio'n briodol, gall technoleg helpu i wella'r profiad asesu i ddysgwyr a helpu i wneud cyflwyno asesiadau yn fwy effeithlon a gwydn, gyda llai o effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r newidiadau y mae'n rhaid i ni i gyd eu gwneud mewn ymateb i bandemig y coronafeirws wedi dangos sut mae technoleg ddigidol yn cynnig ffyrdd newydd ac amgen o wneud pethau. Mae'r profiad hwn yn debygol o gryfhau'r achos dros wneud defnydd mwy arloesol ac effeithiol o dechnoleg ddigidol mewn sawl maes, gan gynnwys addysg. Efallai y bydd hefyd yn helpu i nodi lle mae buddion i'w cael o wneud gwell defnydd o dechnoleg, yn ogystal â chynyddu'r awydd a'r derbyniad cyffredinol am wneud pethau'n ddigidol.

Wrth ddatblygu cynigion a gofynion ar gyfer cymwysterau'r dyfodol, byddwn yn annog cyrff dyfarnu i wneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg ddigidol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ac asesu eu cymwysterau. Wrth wneud hynny, byddwn am fod yn siŵr bod y buddion yn glir ac y byddai'r newidiadau yn hylaw i ganolfannau a dysgwyr.

Adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi cymwysterau

Mae'r adnoddau a'r deunyddiau sydd ar gael i ganolfannau a dysgwyr i gefnogi addysgu ac astudio cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau yn dod o ystod o wahanol ffynonellau a darparwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyrff dyfarnu, cyhoeddwyr masnachol ac eraill sy'n ymateb naill ai i alw'r farchnad neu i gomisiynau Llywodraeth Cymru. Mae ystod eang o gyfranwyr yn chwarae rhan bwysig, gan gynnwys consortia addysg rhanbarthol, cymdeithasau pwnc, ac adnoddau ar Hwb a ddatblygwyd gan athrawon.

O'n hymchwil yn edrych ar ganfyddiadau athrawon o gymwysterau TGAU diwygiedig, gwyddom fod llawer yn y system yn ansicr ynghylch pa adnoddau y gallant ddisgwyl

iddynt fod ar gael, neu pwy sy'n gyfrifol am eu darparu. Gwyddom hefyd bod awydd mawr am ystod eang o adnoddau dwyieithog i gefnogi addysgu a dysgu.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer cymwysterau'r dyfodol, byddwn yn nodi'r goblygiadau posibl ar gyfer adnoddau addysgu a dysgu. Ar gyfer y cymwysterau hynny sy'n cael eu datblygu'n benodol ar gyfer Cymru, gallwn osod gofynion manwl ar gyfer y gefnogaeth a'r adnoddau addysgu a dysgu y dylai cyrff dyfarnu eu darparu i gefnogi'r cymwysterau hynny a phryd y dylent fod ar gael. Ni allwn gyflawni'r un dasg hon ar gyfer cyfraniadau gan bartïon eraill nad ydym yn eu rheoleiddio.

Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, mai prif swyddogaeth cyrff dyfarnu yw cyflwyno cymwysterau. Dim ond rhywfaint y gallwn yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol iddynt ei gynhyrchu o ran adnoddau addysgu a dysgu. Bydd darparwyr eraill yn parhau i fod â rhan bwysig i'w chwarae o ran darparu adnoddau addysgu a dysgu atodol.

Wrth i gynnwys a threfniadau asesu cymwysterau'r dyfodol ddod yn gliriach, byddwn yn gweithio'n agos gyda'ch swyddogion a phartneriaid eraill i helpu i nodi lle y bydd angen adnoddau addysgu a dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn cefnogi dull mwy strategol o gomisiynu adnoddau dwyieithog, amserol a pherthnasol.

Llunio'r dyfodol

Rydym yn llwyr werthfawrogi pwysigrwydd a graddfa'r gwaith sydd o'n blaenau. Bydd yr ystod o gymwysterau a gymerir yn 16 oed yn y dyfodol yn chwarae rhan fawr yn y modd y cyflwynir y cwricwlwm newydd.

Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod pawb yn cael dweud eu dweud yn y penderfyniadau a fydd yn llunio'r cymwysterau i bobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio ar y cyd â'ch swyddogion i gynllunio cymwysterau i Gymru a fydd yn cefnogi nodai a phwrpasau'r cwricwlwm newydd a pharatoi pobl ifanc ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

Yn gywir

David Jones
Cadeirydd

Philip Blaker
Prif Weithredwr

Atodiad i'r cyngor ar sut y bydd Cymwysterau Cymru yn pennu ystod o gymwysterau'r dyfodol ar gyfer pobl ifanc 16 oed (Mehefin 2020)

Golwg agosach ar yr heriau, y cyfleoedd, y dibyniaethau a'r rhagdybiaethau

Mae sawl ystyriaeth bwysig i ni eu hystyried wrth i ni ddatblygu cynigion ar gyfer y cymwysterau y bydd eu hangen yn y dyfodol a sut y dylid eu cynllunio.

Codwyd llawer o'r pwyntiau a drafodir isod mewn ymatebion i'n hymgynghoriad *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*. Rydym eisoes wedi trafod rhai ohonynt yn ein dogfen crynodeb o benderfyniadau. Yn y ddogfen hon, rydym yn ymhelaethu ymhellach ar y pwyntiau hynny sy'n ymwneud yn benodol â pholisïau Llywodraeth Cymru ac â rhannau eraill o'r system addysg.

Cynnwys y cwricwlwm a'r cymwysterau

Y cyntaf o'n hegwyddorion arweiniol yw y dylai'r cymwysterau a gymerir yn 16 oed gysylltu â'r cwricwlwm a'i gefnogi.

Yn ymarferol, mae hyn yn codi sawl cwestiwn am y berthynas rhwng cymwysterau a'r cwricwlwm. Mae tensiwn naturiol rhwng cymwysterau sy'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno ar lefel genedlaethol a chynnwys y cwricwlwm a bennir ar lefel leol. Roedd hon yn thema glir yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad.

Disgwylir i ysgolion a darparwyr eraill ddefnyddio fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol fel man cychwyn ar gyfer cynllunio eu cwricwla lleol eu hunain. Byddwn yn disgwyl i gyrff dyfarnu egluro sut mae eu cymwysterau'n cysylltu â'r cwricwlwm newydd ac yn ei gefnogi.

Bydd ysgolion eisiau sicrhau eu bod yn paratoi dysgwyr cystal â phosibl ar gyfer y cymwysterau y byddant yn eu cymryd. Er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n deg, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu egluro beth fydd dysgwyr yn cael eu hasesu arno o ran yr hyn y maent yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Byddai diffyg tegwch sylfaenol pe bai dysgwyr yn wynebu cwestiynau sy'n asesu cynnwys nad ydynt wedi'i ddysgu. Felly, mae'n anochel y bydd y cynnwys a gwmpesir yn y manylebau ar gyfer cymwysterau yn dylanwadu ar yr hyn y mae ysgolion yn ei ddysgu i bobl ifanc 14 i 16 oed a sut y maent yn gwneud hynny.

Mynegodd rhai ymatebwyr i'n hymgynghoriad bryderon ynghylch y potensial i gynnwys cymwysterau ddylanwadu'n anghymesur ar benderfyniadau ysgol ynghylch ffocws ei

chwricwlwm, nid yn unig ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10 ac 11, ond ar gyfer dysgwyr iau hefyd. Mae risg y gall ysgolion deimlo eu bod wedi'u cyfyngu'n ormodol gan yr angen i baratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau a pheidio â manteisio i'r eithaf ar yr hyblygrwydd y mae'r fframwaith cwricwlwm newydd yn ei gynnig. Er ei bod yn bwysig cydnabod hyn, mae rheolaethau y gellir eu defnyddio i liniaru'r canlyniad hwn. Er enghraifft, mae'r ddeddfwriaeth ddrafft arfaethedig i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn cynnig gofyniad ar ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn profi'r cwricwlwm llawn hyd at 14 oed. Mae'n werth nodi hefyd, er ei bod yn ddymunol i ysgolion gael y rhyddid i osod eu cwricwlwm eu hunain, gall cymwysterau chwarae rhan ddefnyddiol wrth fynegi a meincnodi lefel y cyrhaeddiad y dylai dysgwyr ac ysgolion fod yn anelu ato erbyn i'r dysgwyr gyrraedd 16 oed.

Pwysleisiodd llawer o ymatebion i'n hymgynghoriad yr angen i gymwysterau, a chynnwys cymwysterau, fod yn ddigon manwl a heriol i gefnogi dilyniant llwyddiannus i gyrsiau ôl-16. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i'r dysgwyr hynny a oedd yn anelu at lwybrau mwy arbenigol ar ôl 16 oed. Mae cefnogi dilyniant effeithiol yn un o ddibenion sylfaenol cymwysterau yn 16 oed, ar gyfer pob dysgwr ac ar bob lefel. Er mwyn cyflawni'r pwrpas hwnnw, mae'n ofynnol i gymwysterau barhau i nodi'r cynnwys yr asesir dysgwyr arno, ac i'r cynnwys hwnnw ddarparu sylfaen ddigonol ar gyfer dilyniant.

O ran ffocws a chynnwys cymwysterau, mae yna nodweddion a allai ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ganolfannau a dysgwyr deilwra'r cynnwys sy'n cael ei addysgu a'i asesu. Bydd rhai cyfleoedd, er enghraifft, i gynnwys tasgau neu brosiectau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr, neu a bennir gan y ganolfan, a'u hasesu gan waith cwrs neu asesiad dan reolaeth.

Mewn rhai meysydd pwnc, efallai y bydd yn bosibl canolbwyntio mwy nag a fu o'r blaen ar allu dysgwyr i ddangos a chymhwyso eu gwybodaeth am gysyniadau a gweithdrefnau i gyd-destunau a senarios anghyfarwydd neu heb eu gweld o'r blaen. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd terfyn ar ba mor bell y gellir sicrhau newid pwyslais o'r fath heb gynyddu anhawster cyffredinol asesiadau yn sylweddol a thrwy hynny symud y safonau derbyniol ar gyfer cymwysterau yn 16 oed.

Bydd y graddau y gallwn bennu neu ddylanwadu ar gynnwys cymwysterau yn amrywio ar draws yr ystod. Ar gyfer y cymwysterau y mae gennym fwyaf o reolaeth drostynt, megis TGAU, gallwn nodi'r trefniadau cynnwys ac asesu penodol gan ddefnyddio gofynion yr ydym yn eu galw'n 'feini prawf cymeradwyo'. Mae hyn yn wir am gymwysterau yr ydym yn eu comisiynu neu'n eu cymeradwyo. Fodd bynnag, ni fyddai'n ymarferol, nac yn wir yn ddymunol, i ni osod gofynion cynllunio manwl ar gyfer yr holl gymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed. Gallwn fod â disgwyliadau

cyffredin ar gyfer yr holl gymwysterau a gynigir i bobl ifanc 16 oed, ond ni fyddwn yn gallu rhagnodi'r cynnwys manwl y mae'n rhaid iddynt i gyd ei gwmpasu.

Her allweddol wrth benderfynu ar argaeledd a chynllun cymwysterau'r dyfodol fydd sut i sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran y cynnwys: cydbwysedd o ran y pwyslais cymharol ar wahanol fathau o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau, a chydbwysedd rhwng cynnwys wedi'i ddiffinio'n dynn a chynnwys sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd.

Bydd sut yr ydym yn sicrhau'r cydbwysedd hwnnw yn dibynnu ar b'un a ddisgwylir i gymhwyster wneud y canlynol, ac i ba raddau y disgwylir hynny:

- rhoi mesur teg, dibynadwy y gellir ymddiried ynddo o gyrhaeddiad dysgwyr i golegau, cyflogwyr, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant i gefnogi penderfyniadau dethol, ac felly cynnydd dysgwyr;
- sicrhau cymaroldeb a thegwch dros amser â chymwysterau blaenorol a chymwysterau tebyg eraill;
- cefnogi dyfarniadau pwysig am berfformiad ysgolion fel rhan o drefniadau atebolrwydd.

Trefniadau atebolrwydd ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y system atebolrwydd ysgolion. Yn benodol, Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu pa gymwysterau a all gyfrannu at y drefn bresennol o fesurau perfformiad. Mae'n gwneud hyn trwy ddyrannu pwyntiau perfformiad i gymwysterau unigol a thrwy osod y rheolau ar gyfer cyfrifo pob mesur perfformiad.

Fel y nododd sawl ymateb i'n hymgynghoriad, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y system atebolrwydd ysgolion a'r ffordd y mae cymwysterau'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno.

Mae'r rôl y mae cymwysterau yn ei chwarae yn y system atebolrwydd yn llywio penderfyniadau ac ymddygiadau a gymerir gan ysgolion a darparwyr eraill o ran:

- y cymwysterau y maent yn eu cynnig i'w dysgwyr, gan gynnwys a ydynt yn orfodol neu'n ddewisol i ddysgwyr eu cymryd;
- y cymwysterau y gall dysgwyr unigol eu cymryd;
- pryd a pha mor aml y mae dysgwyr yn cael eu cofrestru i'w hasesu;
- cyfanswm y cymwysterau y mae dysgwyr yn eu cymryd;
- yr amser addysgu cymharol a dreulir yn paratoi dysgwyr ar gyfer cymwysterau (gan gynnwys pryd fydd dysgwyr yn dechrau ar eu cyrsiau);
- y ffordd y mae cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau yn cael eu haddysgu a sut mae dysgwyr yn cael eu paratoi ar gyfer eu hasesiadau.

Mae trefniadau atebolrwydd yn cael effaith uniongyrchol ar sut rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gymwysterau gael eu cynllunio a'u hasesu. Byddai parhau i ddefnyddio canlyniadau cymwysterau fel prif fesur perfformiad ysgolion yn ein harwain i gyfyngu'r dulliau asesu sydd ar gael i'r rhai y gellir eu rheoli'n dynn. Er mwyn sicrhau dibynadwyedd a thegwch i bob dysgwr, byddai ein gofynion yn fwy tebygol o:

- ganolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau y gellir eu hasesu'n ddibynadwy, gyda chynnwys arall yn llai tebygol o ymddangos neu gyfrannu at y radd gyffredinol;
- diffinio a rhagnodi'n fanwl iawn y cynnwys i'w asesu, gyda chyfle cyfyngedig ar gyfer cynnwys hyblyg;
- mynnu dulliau asesu a gymerir mewn amodau a reolir yn dynn, fel arholiadau ysgrifenedig a mathau eraill o asesiadau dan reolaeth.

Byddai lleihau'r ddibyniaeth ar ganlyniadau cymwysterau i fesur perfformiad ysgolion yn caniatáu i ni osod gofynion cynllunio mwy hyblyg ar gyfer cymwysterau a rhoi mwy o ryddid i ysgolion ddewis y cymwysterau cywir ar gyfer eu dysgwyr. Po fwyaf y gwyddom ynghylch a yw canlyniadau cymwysterau yn debygol o gael eu defnyddio i fesur neu adrodd ar berfformiad ysgolion a sut, y mwyaf y gallwn sicrhau bod cymwysterau'n cael eu cynllunio i fod yn addas at y diben a fwriadwyd.

Er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn bwriadu i gymwysterau barhau i gael pwyntiau perfformiad wedi'u priodoli iddynt yn y ffordd a wneir nawr. Os felly, dylid ystyried a ddylai'r mwyafrif o gymwysterau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus barhau i gario pwyntiau perfformiad - fel y gwnânt nawr. Dull arall fyddai lleihau'n sylweddol nifer y cymwysterau y gellir eu defnyddio fel hyn. Os yw mesurau perfformiad yn parhau i ymddangos mewn trefniadau atebolrwydd yn y dyfodol, byddem yn cefnogi symud i ffwrdd o ddyrannu pwyntiau perfformiad i'r mwyafrif o gymwysterau, fel bod nifer y cymwysterau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at fesurau o'r fath yn cael eu cadw i'r lleiafswm. Byddai angen ystyried cam o'r fath yn ofalus er mwyn lleihau'r risg o ganlyniadau anfwriadol. O'i wneud yn ystyriol, gallai fod â'r potensial i ryddhau mwy o gymwysterau o bwysau atebolrwydd a chaniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd ac amrywiaeth yn y ffordd y mae'r cymwysterau hynny'n cael eu cynllunio a'u hasesu i gyflawni nodau'r cwricwlwm newydd.

Rydym yn gwybod mai bwriad eich polisi yw datblygu trefniadau atebolrwydd newydd i ysgolion a fydd yn lleihau i ba raddau y mae canlyniadau cymwysterau yn brif ffynhonnell ddata ar gyfer barnu perfformiad ysgol. Bydd y dull newydd arfaethedig yn defnyddio set ehangach a mwy amrywiol o ddata a thystiolaeth i gefnogi atebolrwydd ysgolion. Rydym yn croesawu'r dull hwn yn fawr. Bydd yn lleihau rhywfaint o'r pwysau ar gynllunio a darparu cymwysterau, a fyddai'n galluogi

cymwysterau i weithredu yn ôl y bwriad a chwarae rhan lai amlwg mewn dulliau ysgol a phrofiadau dysgwyr. Mae hyn yn debygol o gael effaith fuddiol ar les dysgwyr ac athrawon, gan leihau'r pwysau arnynt a'r effeithiau negyddol a ddaw gyda'r pwysau hwnnw.

Mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig[4] yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi gofynion ychwanegol y mae'n rhaid i gwricwlwm ysgol eu bodloni ar gyfer yr ystod oedran 14 i 16 mewn perthynas â:

- cyrsiau astudio a/neu ddysgu arall;
- lleiafswm o gyrsiau astudio y mae gan ddysgwyr hawl i'w dilyn.

Fel y deallwn, gallai darpariaeth o'r fath ganiatáu i Weinidogion Cymru osod gofynion ar nifer, ystod a math y cymwysterau a gynigir gan ysgolion. Er y byddai wrth gwrs angen meddwl yn ofalus wrth nodi manylion unrhyw ofynion o'r fath, gallent ddarparu ffordd fwy tryloyw a syml o egluro'r dewis o gymwysterau y mae disgwyl i ysgolion eu cynnig i'w dysgwyr.

Ar hyn o bryd, mae disgwyliadau ynghylch pa gymwysterau y dylai ysgolion eu cynnig yn cael eu nodi, weithiau'n anuniongyrchol, trwy fesurau perfformiad ysgolion. Mae'r ffaith bod cymaint yn y fantol i ysgolion gyda phwyntiau perfformiad yn golygu y gall y dull hwn arwain at ganlyniadau anfwriadol ac annymunol. Yn y system bresennol, mae mesurau perfformiad ysgolion yn gwneud mwy na dim ond nodi pa gymwysterau y dylai ysgolion eu cynnig. Maent yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ysgolion ynghylch pa gymwysterau i gofrestru dysgwyr ar eu cyfer. Gall hyn arwain at gulhau dewis i ddysgwyr o ran y cymhwyster y maen nhw'n ei gymryd. A gallant annog dull cul o ddysgu'r cyrsiau dysgu sy'n arwain at gymhwyster: arfer y cyfeirir ato weithiau fel 'addysgu i'r prawf'.

Rydym yn gwerthfawrogi y bydd yn cymryd amser i Lywodraeth Cymru ddatblygu a gweithredu ei dull newydd o ymdrin ag atebolrwydd ysgolion yn llawn. Bydd y newidiadau a ragwelir yn helpu i yrru, ond hefyd angen, newid sylweddol mewn diwylliant a disgwyliadau ar draws y system. Mae'n gam beiddgar ac yn un y dylid ei gynllunio'n ofalus. Gwyddom fod gwaith ar y gweill ar brosiect ymchwil i gasglu tystiolaeth i helpu i ddatblygu manylion trefniadau yn y dyfodol, ac rydym yn gwerthfawrogi y bydd rhai penderfyniadau yn dibynnu ar ei ganfyddiadau. Serch hynny, bydd unrhyw eglurhad a sicrwydd y gall Llywodraeth Cymru ei roi ar hyn o bryd ynghylch ei nodau polisi a'i dull arfaethedig yn amhrisiadwy i lywio ein penderfyniadau ynghylch argaeledd a chynllun cymwysterau'r dyfodol.

[4] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth-arfaethedig

Rheoli graddfa, cyflymder ac effaith newid

Wrth ddatblygu ein dull gweithredu a'n cynigion, byddwn yn ystyried yn ofalus effaith bosibl unrhyw newidiadau a gallu'r system i'w rheoli.

O ddiwygiadau cymwysterau blaenorol, rydym yn gwybod bod angen digon o amser rhwng cwblhau'r manylebau a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer cymwysterau newydd a'r pwynt y maent yn dechrau cael eu haddysgu mewn ysgolion. Wrth i ni gynllunio'r rownd nesaf o ddiwygiadau, rydym yn ymwybodol y bydd ysgolion a darparwyr eraill yn cychwyn ar gyfnod o newid digynsail bron wrth iddynt weithio ar gynllunio a gweithredu eu cwricwla eu hunain.

Gwyddom y bydd angen cymaint o eglurder â phosibl ar ysgolion ac eraill, mor gynnar â phosibl, ynghylch pa gymwysterau fydd ar gael yn 2025, pan fydd y garfan genedlaethol gyntaf o ddysgwyr i brofi'r cwricwlwm newydd yn dechrau ym Mlwyddyn 10. Yn ymarferol, bydd angen eglurder a sicrwydd ynghylch y cymwysterau a gynigir (a threfniadau atebolrwydd ysgolion) yn llawer cynt na 2025. Ymhlith pethau eraill, bydd hyn yn helpu ysgolion a darparwyr eraill i:

- weithredu a mireinio eu cwricwla;
- paratoi a threfnu eu hadnoddau, gan gynnwys ystyriaethau staffio ac amserlennu;
- strwythuro'r dewisiadau y byddant yn eu cynnig i bobl ifanc 14 oed a chynnig cyngor i ddysgwyr a'u teuluoedd i helpu i wneud y dewisiadau hynny yn hyderus;
- cyrchu'r datblygiad a'r hyfforddiant proffesiynol angenrheidiol i baratoi staff addysgu ar gyfer unrhyw newidiadau i gymwysterau;
- cael ac ymgyfarwyddo ag unrhyw adnoddau addysgu a dysgu newydd sy'n ofynnol i gefnogi cyrsiau a fydd yn arwain at gymwysterau.

Gwers allweddol arall o'r diwygiadau diweddar yw y gall newidiadau i lawer o wahanol gymwysterau ar yr un pryd gael effaith gronnus ar ddarparwyr a'r system ehangach. Gellir colli'r effaith gyffredinol hon os yw'r ffocws yn ormodol ar effaith newidiadau penodol i gymwysterau unigol. Dylai ein cynlluniau ar gyfer ymgynghori i ddechrau ar yr ystod gyffredinol o gymwysterau a ddylai fod ar gael, cyn symud ymlaen i edrych ar fanylion sut y bydd cymwysterau unigol yn cael eu cynllunio, helpu i liniaru hyn.

Wrth ystyried pa newidiadau y gallai fod eu hangen ar gymwysterau i gefnogi'r cwricwlwm newydd, bydd angen i ni gofio mai dim ond rhywfaint o newid y gall y system ymdopi ag ef ar yr un pryd. Rhaid i ni gofio hefyd bod y fframwaith cwricwlwm newydd yn sail i ysgolion fireinio ac esblygu eu cwricwla eu hunain dros amser. Bydd y fframwaith cwricwlwm newydd yn cymryd amser i ymsefydlu'n llawn.

Felly, pan fyddwn yn ymgynghori ar newidiadau, byddwn yn nodi cynigion ar gyfer pryd a sut y mae angen i newidiadau ddigwydd, yn ogystal ag ar ba fath o newid fydd ei angen. Bydd hyn yn caniatáu i ni strwythuro a chynllunio sut rydym yn cyflwyno newidiadau ar ôl i ni gytuno ar yr hyn sy'n ofynnol. Byddwn yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf hanfodol ar gyfer cefnogi ysgolion i ddatblygu cwricwla a dulliau sy'n cwrdd â gofynion a dyheadau'r cwricwlwm newydd. Er enghraifft, byddwn am sicrhau o'r cychwyn cyntaf y bydd unrhyw agweddau ar y ddarpariaeth gyfredol sy'n uniongyrchol groes i'r cwricwlwm newydd yn cael eu dileu neu eu disodli. Fodd bynnag, efallai y byddwn am gymryd dull mwy graddol o gyflwyno newidiadau sydd, er eu bod yn gefnogol i'r cwricwlwm newydd, yn llai hanfodol i'w weithredu'n llwyddiannus.

Bydd unrhyw newidiadau a gyflwynwn i gymwysterau yn dargyfeirio amser ac adnoddau i ffwrdd o'r gwaith ar agweddau eraill ar y cwricwlwm newydd a diwygiadau addysg ehangach. Rhaid i ni felly fod yn siŵr bod achos clir dros unrhyw newidiadau a gynigiwn, gan gynnwys sut y byddant yn helpu ysgolion ac eraill i gyflwyno'r fframwaith cwricwlwm newydd a bod o fudd i ddysgwyr.

Parhad, safonau a thegwch

Fel y rheoleiddiwr, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod cymwysterau'n diwallu anghenion rhesymol dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Bydd y bobl ifanc 16 oed sy'n cyflawni eu cymwysterau yn haf 2027 yn mynd ymlaen i astudio a gweithio ochr yn ochr ag eraill a gyflawnodd eu cymwysterau o dan y systemau cyfredol neu gynharach. Byddant hefyd yn cystadlu â dysgwyr o'r tu allan i Gymru pan fyddant yn ceisio am gyrsiau, prentisiaethau a swyddi.

Rydym yn glir y bydd angen newidiadau i gymwysterau i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Wrth wneud hynny, rhaid i ni sicrhau bod y cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn parhau i fod yn hygyrch i'r un ystod eang o ddysgwyr ag y maent ar hyn o bryd, ac yn gyraeddadwy ganddynt. Ac mae'n rhaid iddynt gadw'r un lefel uchel o hygrededd ac ymddiriedaeth ag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae hon yn ystyriaeth sylfaenol i ni wrth i ni ystyried yr ystod o gymwysterau yn y dyfodol ac o fewn hynny, sut y bydd angen i gymwysterau TGAU newid. Rydym yn gweithio ar y sail, er y bydd cymwysterau TGAU yn cynnwys gwahanol gynnwys a chymysgedd o ddulliau asesu, y dylai'r cyflawniad y maent yn ei gynrychioli fod yn gymharol debyg i'r cymwysterau TGAU cyfredol.

Er bod hyn yn dal i roi cryn hyblygrwydd i ni wrth gynllunio'r cymwysterau hyn, bydd yn cyfyngu i ba raddau y gallwn newid disgwyliadau yn sylweddol o ran y dysgu cysyniadol lefel uwch y maent yn ei asesu.

Cymwysterau i gefnogi dysgu Cymraeg

Rydym eisoes yn gwybod un ffordd y bydd cwricwlwm newydd Cymru yn cael effaith uniongyrchol a gweladwy ar yr ystod o gymwysterau sydd ar gael. Rydych wedi bod yn glir y bydd y disgwyliadau a nodir yn y cwricwlwm newydd yn dod â therminoleg a'r cysyniad o Gymraeg fel ail iaith i ben.

Mae'r anawsterau sy'n gysylltiedig â sut mae Cymraeg Ail Iaith yn cael ei chanfod a'i chyflwyno wedi'u dogfennu'n dda. Rydym yn gwbl gefnogol i'r bwriad polisi i'w thynnu o'r cwricwlwm a chyflwyno un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn defnyddio dwy set o 'ddisgrifiadau dysgu' i ddisgrifio dilyniant i ddysgwyr sy'n astudio Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dilyniant ar gyfer dysgwyr sy'n astudio Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Yn y modd hwn, mae'r cwricwlwm newydd yn egluro'r berthynas rhwng y dilyniant y mae disgwyl i ddysgwyr ei wneud ym mhob lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu set o gymwysterau sy'n cysylltu'n llawer cliriach â'i gilydd nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae grwpio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol gyda'i gilydd mewn un maes dysgu a phrofiad yn rhoi cyfle pellach i ddod â chydlyniant ac eglurder i'r ystod o gymwysterau sydd ar gael i gefnogi ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Yn yr un modd â'n holl waith, byddwn am ystyried pa ystod o gymwysterau fydd yn diwallu anghenion pob dysgwr orau, waeth beth yw'r lleoliad addysgol y maent ynddo, neu lefel yr hyfedredd iaith y maent yn gweithredu ynddo. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r ystod o ieithoedd sydd ar gael, bydd angen i ni hefyd ystyried hyfywedd cymwysterau'r dyfodol fel rhan o'n ffordd o feddwl.

Mae gan gymwysterau ran bwysig i'w chwarae wrth wneud ieithoedd yn apelgar ac yn berthnasol i ddysgwyr, gallant helpu i ennyn diddordeb ac ysgogi dysgwyr, a'u hannog i barhau i ddatblygu eu hyfedredd iaith ac i gaffael ieithoedd newydd ar ôl 16 oed ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

O ran cytuno ar ystod briodol o gymwysterau i gefnogi dysgu Cymraeg, mae yna sawl her a chyfle i'w hystyried. Wrth i ni ddatblygu ein cynigion, byddwn yn ymwybodol o'r angen i:

- ddileu terminoleg a chysyniad cymhwyster Cymraeg Ail Iaith;
- cynnal ac adeiladu ar safon a lefel yr hyfedredd iaith a gyflawnir ar hyn o bryd yng nghymwysterau TGAU Cymraeg, Llenyddiaeth Gymraeg a TGAU Cymraeg Ail Iaith;

- sicrhau y gall y cymwysterau sydd ar gael ddiwallu anghenion pob dysgwr, ymhob lleoliad a'u cefnogi cyn belled ag y bo modd i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus erbyn eu bod yn 16 oed;[5]
- nodi'n glir sut mae cymwysterau iaith Gymraeg yn cysylltu â'i gilydd ac â'r disgwyliadau cyffredin a nodir yn y cwricwlwm (hynny yw, sut maent yn cysylltu ag un continwwm cyffredin o addysgu a dysgu iaith);
- gwella lefelau ymgysylltu â'r Gymraeg, ym mhob lleoliad, ac annog mwy o ddysgwyr ôl-16 i astudio'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg;
- nodi'n glir sut y gall cymwysterau iaith Gymraeg a gymerir yn 16 oed gysylltu â llwybrau ôl-16 i annog pob dysgwr i barhau i ddefnyddio a gwella eu Cymraeg y tu hwnt i 16 oed;
- caniatáu i ysgolion gofrestru dysgwyr i'r cymhwyster mwyaf priodol o ystyried eu cynnydd a'u lefel hyfedredd;
- sicrhau bod cymwysterau iaith Gymraeg yn hygyrch ac yn gyraeddadwy i ddysgwyr ac yn arwain at ganlyniadau teg y deellir yn eang eu bod yn fesurau cyrhaeddiad gwerthfawr;
- ystyried yr adnoddau a'r gallu addysgu a fydd ar gael i ysgolion wrth iddynt gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Mae hwn yn faes o'r cwricwlwm y bydd yn arbennig o bwysig i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ei gylch wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer cymwysterau. Mae'n hanfodol ein bod yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl am yr hyn y mae unrhyw newidiadau yn debygol o'i olygu yn ymarferol ar lawr gwlad.

Wrth i ni ddatblygu opsiynau ar gyfer sut y bydd angen i gymwysterau iaith Gymraeg newid i gefnogi continwwm iaith sengl ar gyfer pob dysgwr, byddwn yn ystyried a ddylid gwneud y newidiadau hynny i gyd ar yr un pryd neu fesul cam. Byddai penderfynu gwneud hynny fesul cam yn gofyn i ni nodi gweledigaeth tymor hwy ar gyfer newid, wedi'i halinio â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ynghyd â set glir o gerrig milltir ar gyfer ei chyflawni.

Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol

Wrth ddatblygu cynigion a gofynion ar gyfer cymwysterau'r dyfodol, byddwn yn annog cyrff dyfarnu i wneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg ddigidol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ac asesu eu cymwysterau.

Gwyddom fod rhai ysgolion yn poeni a fydd ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu cymwysterau sy'n gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol. Fel yn achos unrhyw newidiadau a gynigiwyd gennym, byddwn yn edrych yn ofalus ar eu heffaith bosibl, o ran tegwch ac ymarferoldeb cynigion.

[5] https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg?_ga=2.78585427.639837670.1590676739-341628432.1575628933

Fodd bynnag, er mwyn parhau i fod yn berthnasol, yn ddeniadol ac yn ddilys, rydym yn gwybod bod yn rhaid i gymwysterau addasu ac esblygu i adlewyrchu sut mae pobl ifanc yn defnyddio technoleg yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae sawl budd a allai ddeillio o ddefnydd mwy eang, amrywiol a chreadigol o dechnoleg ddigidol. Gall profion ar y sgrin, profion yn ôl y galw a phrofion addasol fod yn allweddol i sicrhau llai o faich asesu ar ddysgwyr a chanolfannau, gydag asesiadau byrrach y gall dysgwyr eu cymryd pan fyddant yn barod, a chyhoeddi canlyniadau yn gyflymach. Gallai defnyddio dulliau digidol o gasglu a chyflwyno tystiolaeth asesu sy'n digwydd yn naturiol olygu bod gweithgareddau sy'n seiliedig ar brosiectau yn dod yn ffurfiau asesu mwy hylaw, dilys, dibynadwy a gafaelgar. Gallai pob un ohonynt gael effeithiau cadarnhaol ar gymhelliant a chanlyniadau dysgwyr, ynghyd â lleihau straen a phryder sy'n gysylltiedig ag arholiadau.

Gall technoleg ddigidol hefyd gynnig buddion wrth ddarparu asesiad. Gall asesiad digidol fod yn fwy effeithlon oherwydd ei fod yn dileu'r ddibyniaeth ar bapur, gan ddileu'r angen i storio a symud llawer iawn o ddogfennau sensitif o amgylch y wlad.

Rydym hefyd yn gweld datblygiadau yn yr hyn y cyfeirir ato weithiau fel ‘proctora digidol’. Dyma lle mae platfform asesu ar-lein yn creu amgylchedd diogel ar y ddyfais sy'n cael ei defnyddio i sefyll y prawf, a all helpu i atal neu ganfod camymddwyn. Gall technoleg o'r fath ganiatáu i ddysgwyr ddefnyddio'r dyfeisiau y byddent fel arfer yn eu defnyddio fel rhan o'u dysgu i sefyll eu harholiad. Gall hyn wella hyder dysgwyr a’i gwneud yn haws cymhwyso unrhyw addasiadau rhesymol y byddent yn eu defnyddio fel rheol. Gallai hefyd helpu i leihau'r angen i garfannau cyfan o ddysgwyr sefyll eu harholiadau ar yr un pryd, yn yr un lle. Byddai hefyd yn caniatáu i ddysgwyr gyrchu prawf o leoliadau amgen – opsiwn a allai fod wedi cynnig rhai ffyrdd amgen i ni o ymateb i ganslo arholiadau'r haf hwn.

Mae'r newidiadau y mae'n rhaid i ni i gyd eu gwneud mewn ymateb i bandemig y coronafeirws wedi dangos sut mae technoleg ddigidol yn cynnig ffyrdd newydd ac amgen o wneud pethau. Mae'r profiad hwn yn debygol o gryfhau'r achos dros wneud defnydd mwy arloesol ac effeithiol o dechnoleg ddigidol mewn sawl maes, gan gynnwys addysg. Efallai y bydd hefyd yn helpu i nodi lle mae enillion i'w gwneud o wneud gwell defnydd o dechnoleg, yn ogystal â chynyddu'r awydd a’r derbyniad cyffredinol am wneud pethau'n ddigidol.

Credwn mai nawr yw'r amser i ddechrau cynyddu disgwyliadau ac i annog mwy o arloesi yn y modd y defnyddir technoleg ddigidol i gefnogi a gwella'r ffordd y mae cymwysterau'n cael eu hasesu. Bydd yn dal i gymryd amser i unrhyw newidiadau fwydo trwy'r system, felly mae'n bwysig ein bod ni'n dechrau cynllunio nawr i helpu i wneud y mwyaf o'r buddion posib.

Adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi cymwysterau

Gwers allweddol arall a ddysgwyd gennym o'r diwygiadau diwethaf i gymwysterau TGAU a Safon Uwch oedd yr angen i gynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu adnoddau hanfodol ac atodol i gyd-fynd â chymwysterau newydd. Wrth i gymwysterau newydd a wnaed ar gyfer Cymru gael eu sefydlu, daeth yr angen am ddull gwahanol o nodi a sicrhau'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn amlwg.

Mae yna sawl cam y gallwn eu cymryd i helpu i sicrhau bod yr angen hwn yn cael ei ddiwallu. Gallwn egluro o'r cychwyn pa adnoddau ategol y byddem yn gofyn i gorff dyfarnu eu darparu i gefnogi cymwysterau newydd. Bydd y graddau y gallwn wneud hyn yn amrywio. Er enghraifft, mae gennym fwy o gyfle i wneud hyn fel rhan o broses gaffael gystadleuol ar gyfer cymhwyster newydd nag sydd gennym wrth osod disgwyliadau cyffredinol ar gyfer cymwysterau presennol sy'n ceisio cymhwysedd i gael cyllid cyhoeddus.

Ni fydd yn bosibl nac yn rhesymol disgwyl i gyrff dyfarnu ddarparu adnoddau addysgu a dysgu helaeth, atodol ar gyfer pob cymhwyster. Fodd bynnag, gallwn gynllunio newidiadau fel bod y gofynion sy'n deillio o newidiadau i gymwysterau yn cael eu nodi mor gynnar â phosibl a'u bwydo i'r dull strategol newydd sy'n cael ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu adnoddau dwyieithog newydd i gefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru.

Mae rhai manteision gennym yng Nghymru y byddem am adeiladu arnynt. Un o'r cryfderau sydd gennym yng Nghymru yw'r platfform dysgu ar-lein Hwb, sy'n hygyrch i holl staff addysgu a dysgwyr. Efallai y bydd yn bosibl i'ch swyddogion weithio gyda chyrff dyfarnu a phartneriaid eraill, o bosibl trwy'r fforwm adnoddau strategol, i wneud mwy gyda'r adnoddau a ddatblygwyd gan athrawon sydd eisoes ar Hwb. Er enghraifft, trwy gyfeirio'r adnoddau gorau a mwyaf perthnasol yno a nodi lle gallai fod bylchau.

Mehefin 2020